PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# SWYDDOG DATBLYGU – YMGYSYLLTIAD IEUENCTID / CYMDEITHAS PEL-DROED CYMRU (FAW)

## Pecyn Ymgeisio

childreninwales.org.uk

# Cyflwyniad

**Teitl Swydd:** Swyddog Datblygu – Ymgysylltiad Ieuenctid/Cymdeithas Pêl-droed Cymru (FAW)

**Yn Adrodd i'r:** Uwch Swyddog - Prosiectau

**Lleoliad:** Gweithio ystwyth gartref neu yn y swyddfa (Swyddfa Plant yng Nghymru, Caerdydd, swyddfeydd FAW yng Nghasnewydd, Caerdydd neu Wrecsam).

**Oriau Gwaith:** 21 awr yr wythnos

Lluniwyd yr wybodaeth amgaeedig i roi darlun llawnach i chi o ofynion y swydd a gwybodaeth am Plant yng Nghymru.

Lluniwyd y disgrifiad swydd i grynhoi'n eglur gwmpas a chyfrifoldebau'r swydd, a dylid ei ddarllen yn drylwyr. Pwrpas y fanyleb person yw nodi, mor fanwl â phosibl, yr isafswm o ran sgiliau, profiad a gwybodaeth sy'n ofynnol gan ymgeiswyr i gyflawni gofynion y swydd. **Mae'n hanfodol eich bod yn darllen hyn yn ofalus ac yn rhoi sylw i'r meini prawf a geir yn y fanyleb person yn eich cais am y swydd.** Bydd methu â gwneud hynny yn lleihau'n sylweddol eich cyfle o gael eich dewis ar gyfer cyfweliad.

Bydd y broses ymgeisio yn cau am **9am ar 4 Rhagfyr 2023.**

Bydd ein panel recriwtio yn llunio rhestr fer o ymgeiswyr i'w cyfweld. Ni fyddant yn derbyn eich manylion cyswllt nac unrhyw wybodaeth cyfle cyfartal. Bydd yr wybodaeth a gyflwynir gan ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael ei chadw'n ddiogel am gyfnod o 1 flwyddyn, ac yna'n cael ei dinistrio'n gyfrinachol.

I arbed costau, ni allwn gydnabod eich cais ond trwy e-bost.

Os llwyddwch i symud ymlaen i gyfweliad, cewch eich hysbysu trwy'r cyfeiriad e-bost a roddwyd i ni erbyn **11 / 12 Rhagfyr 2023**.

.

# Gwybodaeth Bellach

**Contract:** Parhol

**Oriau Gwaith:** 21 awr yr wythnos

**Graddfa Gyflog:** £33,864 pro rata

**Gwyliau Blynyddol:** 25 diwrnod y flwyddyn pro rata

**Dull Talu:** Telir cyflogau'n uniongyrchol i'r cyfrif banc a enwebwyd gan yr aelod staff ar y 15fed o bob mis

**Pensiwn:** Caiff cyflogeion Plant yng Nghymru eu cofrestru'n awtomatig ar Gynllun Pensiwn y Gweithle, ond gallwch ddewis optio allan.

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Swyddog Datblygu – Ymgysylltiad Ieuenctid/Cymdeithas Pel-droed Cymru (FAW) |
| **Yn Adrodd i'r:** | Uwch Swyddog - Prosiectau |
| **Lleoliad:** | Gweithio ystwyth gartref neu yn y swyddfa (Swyddfa Plant yng Nghymru, Caerdydd, swyddfeydd FAW yng Nghasnewydd, Caerdydd neu Wrecsam). |
| **Oriau Gwaith:** | 21 awr yr wythnos |

Rydym ni'n awyddus i benodi unigolyn deinamig, egnïol i'n helpu i gyflwyno ein prosiect cyffrous sydd newydd ei ariannu gan WCVA, mewn partneriaeth â Chymdeithas Pêl-droed Cymru (FAW).

**Prif ddiben y rôl:**

Bydd y Swyddog Datblygu yn gyfrifol am arwain, llywio ac estyn cwmpas ein model Cymru Ifanc presennol o ymgysylltu a chyfranogiad ieuenctid, i gefnogi mentrau ymgysylltiad ieuenctid FAW.

Mewn cydweithrediad agos â FAW, bydd gofyn bod deilydd y swydd yn darparu cyngor, arweiniad, dysgu a monitro proffesiynol i gefnogi mentrau ieuenctid FAW, gan sicrhau ymarfer cyfranogol trwy ddull gweithredu seiliedig ar hawliau, sy'n canolbwyntio'n gryf ar ddatblygu dysgu a sgiliau pobl ifanc.

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant (CCUHP), yn arbennig Erthygl 12, yn sbardun allweddol y tu ôl i'r gwaith hwn, a bydd angen i ddeilydd y swydd ddangos arbenigedd o ran galluogi plant a phobl ifanc i gyfranogi'n effeithiol a sicrhau bod eu barn yn cael ei chlywed er mwyn llywio datblygiad polisi ac ymarfer, ochr yn ochr â grymuso plant a phobl ifanc.

**Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:**

- Meithrin a chynnal perthnasoedd cryf gyda phartneriaid i sicrhau bod amcanion y prosiect yn cael eu cyflawni'n effeithiol.
- Gweithio gyda phartneriaid allweddol i wreiddio model Cymru Ifanc o ymgysylltiad a chyfranogiad ieuenctid.
- Arwain y gwaith o ddarparu model ymgysylltiad ieuenctid cadarn, cyfranogol, sy'n canolbwyntio ar recriwtio a chyrraedd pobl ifanc o gefndiroedd amrywiol.
- Darparu cyngor, arweiniad a hyfforddiant i bartneriaid, fel eu bod yn gallu gwreiddio dull seiliedig ar hawliau plant a chyfranogiad yn effeithiol yn eu gwaith.
- Datblygu a thyfu cysylltiadau presennol i blant a phobl ifanc gael eu cydnabod am eu hamser gwirfoddol trwy ddarparu credydau amser.
- Ymchwilio i'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc adeiladu ar ddatblygiad eu sgiliau trwy fecanweithiau achredu, a'u hyrwyddo.
- Cyflawni rôl arweiniol wrth fonitro a gwerthuso model Cymru Ifanc fel offeryn i wella ymgysylltiad effeithiol Plant yng Nghymru â sefydliadau partner.
- Hyrwyddo a gweithio'n unol â pholisïau Plant yng Nghymru ynghylch diogelu plant a phobl ifanc, er mwyn sicrhau profiad diogel, cefnogol i'r rhai dan sylw.
- Cynllunio a chydlynu cyfarfodydd gyda phartneriaid a phobl ifanc yn ôl y galw.
- Derbyn cyfrifoldeb am fonitro ac adrodd i bartneriaid ac arianwyr.
- Cyflawni amcanion a rhaglenni gwaith cytunedig at safonau Plant yng Nghymru a Chymdeithas Pêl-droed Cymru.

- Ymgymryd â thasgau gweinyddol priodol i gefnogi'r prosiect.
- Cynrychioli'r sefydliad mewn amrywiaeth o gyfarfodydd a digwyddiadau yn ôl y galw.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill rhesymol ar gais rheolwr perthnasol Plant yng Nghymru a Chymdeithas Pêl-droed Cymru.
- Cyflawni pob un o'r uchod yn unol â nodau, gwerthoedd a gweledigaeth strategol Plant yng Nghymru/FAW, gan roi sylw arbennig i CCUHP a pholisïau amddiffyn plant.

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol, gan y gall fod dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill, y gall Plant yng Nghymru/FAW ofyn bod deilydd y swydd yn eu cyflawni o bryd i gilydd wrth gyfrannu at gyflawni ei weithgareddau.

# Manyleb Person

**Cyffredinol**

Bydd angen i chi weithio'n agos gyda chydweithwyr yn y sefydliad, gyda phartneriaid mewn sefydliadau sy'n aelodau, a rhanddeiliaid allanol. Bydd angen i ddeilydd y swydd fedru gweithio'n hyblyg yn gyffredinol, ac adeiladu ar berthnasoedd gwaith presennol a newydd i gyflawni rhaglen waith heriol.

**Profiad Gwybodaeth a Sgiliau - Hanfodol**

- Wedi cymhwyso at lefel raddedig, gydag o leiaf 2 flynedd o brofiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc mewn lleoliad penodol fel y sector gwirfoddol, llywodraeth leol, ymchwil gymdeithasol, gwaith ieuenctid, gwaith cymdeithasol neu addysgu ffurfiol.
- Profiad o gyflwyno a datblygu prosiectau gwreiddiol, lefel uchel, yn unigol ac ar y cyd, gan ddefnyddio dulliau craidd sy'n addas ar gyfer ymgysylltiad a chyfranogiad plant a phobl ifanc, moeseg a chyfle cyfartal.
- Profiad o gasglu data, dadansoddi a dod i gasgliadau perthnasol, paratoi ac ysgrifennu papurau ac adroddiadau o safon uchel ar gyfer gweithwyr proffesiynol a phobl ifanc.
- Profiad a dealltwriaeth sylweddol o bolisi, ymchwil ac ymarfer mewn perthynas â chyfranogiad plant a phobl ifanc ar draws y Deyrnas Unedig, a gallu i arddangos ymrwymiad i werthoedd ac egwyddorion CCUHP a phenderfyniad i hybu ei weithrediad yn effeithiol, ar sail gwybodaeth am faterion plant a phobl ifanc cyfredol yng Nghymru. Gwybodaeth a dealltwriaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a'r gallu i weithio o bersbectif hawliau plant.
- Profiad o waith aml-ddisgyblaeth, sy'n cynnwys y sectorau statudol a gwirfoddol.
- Gallu i weithio'n greadigol ar eich menter eich hun ac fel rhan o dîm, oddi mewn i ganllawiau cytunedig gyda sgiliau trefnu da, a'r gallu i gynllunio a blaenoriaethu gwaith i gadw at derfynau amser.
- Gallu diamheuol i gyfathrebu'n effeithiol â phlant a phobl ifanc, sefydliadau a gweithwyr proffesiynol, unigolion a'r cyfryngau, gan ddefnyddio ystod o sgiliau llafar, ysgrifenedig a sgiliau cyflwyno eraill.
- Profiad o drefnu cyfarfodydd, deall deinameg grwpiau, cadw at derfynau amser a symud materion ymlaen i'w cwblhau.
- Gallu i ddangos ymwybyddiaeth o gyfle cyfartal ac ymarfer gwrth-hiliol, a bod yn sensitif i hynny.
- Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddiogelu pobl ifanc/oedolion/teuluoedd.

**Dymunol**

- Cymhwyster ôl-raddedig mewn maes perthnasol, megis y gwyddorau cymdeithasol, datblygiad ieuenctid a chymuned, addysg.
- Gallu i ddatblygu a chynnal cronfeydd data.
- Profiad o reoli platfformau digidol a chyfryngau cymdeithasol.
- Gallu i gyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig yn Gymraeg.
- Trwydded yrru gyfredol/gallu i fodloni gofynion teithio'r swydd.

**Nodweddion Personol:**

- Sgiliau rhyngbersonol rhagorol i feithrin perthynas gydag ystod eang o bobl.
- Dysgwr cyflym, sy'n gallu deall natur yr elusen, ei gwasanaethau a'i nodau yn fuan.
- Meddyliwr creadigol, hyblyg a strategol.
- Medrus yn ysgrifennu cynnwys clir, hygyrch, sy'n denu sylw.
- Lefelau uchel o wydnwch.

- Rhywun sy'n meithrin perthnasoedd, ac sydd â lefelau uchel o ddeallusrwydd emosiynol.
- Person dilys, sy'n llawn angerdd ynghylch ein hachos.
- Diddordeb mewn gweithio gyda phobl ifanc.
- Person hawdd troi atyn nhw a chadarnhaol mewn amgylchedd heriol.
- Person trefnus, sy'n cynllunio'n gadarn.
- Sgiliau trefnu, a chynllunio a chyflwyno prosiectau'n brydlon, o fewn y gyllideb.
- Sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu, empathi, a pharch at bobl ifanc.
- Awydd angerddol i weithio gyda phobl ifanc.
- Gallu i weithio'n hyblyg, gan gynnwys ar y penwythnos a gwyliau banc, yn ogystal â gallu i addasu dulliau cyflwyno.

# Gwybodaeth Gefndir

**GWERTHOEDD FAW**

Ein gwerthoedd yw'r sylfaen ar gyfer gweledigaeth FAW, ac maen nhw'n llywio pob agwedd ar ein gwaith:

**Rhagoriaeth** – rydyn ni'n ymdrin â phob her yn benderfynol, gydag awydd i roi o'n gorau ym mhopeth a wnawn. Rydyn ni'n arddangos ymrwymiad, cymhelliad, disgyblaeth a dyfalbarhad, ac yn gwneud ein hunain yn atebol am ganlyniadau. Ym mhob agwedd ar fusnes a chwaraeon, rydym ni'n ymdrechu i ragori.

**Teulu** – rydyn ni'n hyrwyddo diwylliant croesawgar o gynhesrwydd a pherthyn, lle mae pawb yn cael eu croesawu. Trwy bŵer cydweithio, byddwn ni'n parhau i ehangu ein teulu pêl-droed, ac yn croesawu unrhyw un sydd am gyflawni pethau mawr dros Gymru.

**Parch** – rydyn ni'n credu bod gwahanol syniadau, cryfderau, diddordebau a chefndiroedd diwylliannol yn hanfodol er mwyn llwyddo. Byddwn ni'n sicrhau parch gan eraill trwy ein hymrwymiad i fod yn agored, yn onest, yn egwyddorol ac yn deg.

Plant yng Nghymru yw'r corff trosfwaol cenedlaethol ar gyfer sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru.

Gyda'n gilydd rydyn ni'n:

- Cyfrannu at wireddu Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru
- Brwydro dros wasanaethau cynaliadwy o safon a chyfran deg i bob plentyn a pherson ifanc
- Sicrhau sylw a thriniaeth arbennig ar gyfer plant mewn angen a'r rhai sydd ar y cyrion
- Sicrhau llais i blant a phobl ifanc

Mae Plant yng Nghymru yn cynnal nifer o weithgareddau i gyflawni'r nodau hyn, gan gynnwys:

- Trefnu cynadleddau a seminarau
- Darparu Hyfforddiant
- Cefnogi a datblygu rhwydweithiau a fforymau cryf
- Cynhyrchu a lledaenu gwybodaeth
- Cynrychioli'r aelodau ac ymgynghori â nhw
- Ymchwil
- Gwaith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc trwy ein prosiect Cymru Ifanc

Mae Plant yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth â'r cyrff cyfatebol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac mae ganddo gysylltiadau cryf yn Ewrop ac yn rhyngwladol.

Fel sefydliad o aelodau rydyn ni'n sefydlu rhwydweithiau yng Nghymru er mwyn cynrychioli barn yr etholaeth, canfod pryderon cyffredin ac annog gweithgaredd amlddisgyblaeth. Gall aelodau fod yn rhai corfforaethol neu'n unigolion, a deuant o ystod eang o ddiddordebau, megis iechyd,

addysg, cyrff gwirfoddol, gwasanaethau cymdeithasol neu grwpiau hunangymorth.

.